Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Galwad am Dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad statudol o'r Tariff Atchwip

## Ymateb y Llywodraeth

21 Tachwedd 2024

**Ymateb i Alwad am Dystiolaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**
**Mae copïau o'r Alwad am Dystiolaeth a'r ymateb hwn ar gael yn:**

https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/statutory-review-of-the-whiplash-tariff

# Ynglŷn â'r Alwad am Dystiolaeth hon

| | |
|---|---|
| **At:** | Pob rhanddeiliad sydd â diddordeb yn y broses o bennu'r gyfradd ddisgownt anaf personol.<br><br>**Cyhoeddwyd ar:** 21 Tachwedd 2024 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am gopïau mewn fformat gwahanol) i:** | **Personal Injury Policy Team**<br>**Civil Justice & Law Policy**<br>Post point 5.25<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: whiplash-reform-team@justice.gov.uk |

Mae'r papur ymateb hwn ar gael yn Saesneg yn:

https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/statutory-review-of-the-whiplash-tariff

# Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol** **2**

**Cyflwyniad** **4**

**Dadansoddiad Ystadegol o'r Ymatebion** **5**

**Strwythur y tariff** **6**

**Newidiadau ers i'r tariff gael ei gyflwyno** **15**

Anafiadau cymysg 18

**Ffactorau ehangach** **24**

Chwyddiant 24

Ffactorau ychwanegol 29

**Ystyriaethau cydraddoldeb** **32**

**Crynodeb a'r Camau Nesaf** **34**

**Egwyddorion ymgynghori** **35**

**Rhestr o Ymatebwyr** **36**

# Crynodeb Gweithredol

Gwnaeth Rhan 1 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018 (Deddf 2018) ddiwygio'r broses ar gyfer dyfarnu iawndal i hawlwyr am boen, dioddefaint a cholli amwynder o ganlyniad i anafiadau atchwip yn sgil damwain traffig ar y ffordd. Mae adran 3 o'r Ddeddf[1] yn darparu i'r Arglwydd Ganghellor bennu tariff iawndal ar gyfer anafiadau atchwip hyd at ddwy flynedd o hyd a gwneud Rheoliadau i bennu symiau'r tariff.

Mae adran 4 o'r Ddeddf[2] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor adolygu'r Rheoliadau gweithredu o fewn tair blynedd fan bellaf ar ôl iddynt gychwyn ac o fewn pob cyfnod o dair blynedd fan bellaf wedi hynny. Mae Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 (y Rheoliadau) yn gweithredu'r darpariaethau a nodir yn Neddf 2018.[3] Rhaid i'r Arglwydd Ganghellor hefyd baratoi adroddiad, ei gyhoeddi a'i adneuo yn y Senedd ac ymgynghori â'r Arglwyddes Brif Ustus cyn gwneud Rheoliadau newydd.

Mae'r adolygiad wedi ystyried amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys:

- elfennau'r tariff (y bandiau hyd, a'r cyfraddau ar gyfer anafiadau atchwip yn unig ac anafiadau atchwip gyda mân niwed seicolegol);
- lefel y cynnydd barnwrol y gellir ei ychwanegu mewn achosion lle y gall yr hawlydd ddangos tystiolaeth bod ei anaf neu ei amgylchiadau yn eithriadol;
- diffiniadau o'r hyn sy'n gyfystyr â thystiolaeth feddygol a phwy all ei darparu mewn perthynas â'r gwaharddiad ar geisio neu gynnig setlo hawliad atchwip heb dystiolaeth feddygol.

I gefnogi'r adolygiad ymhellach, ceisiwyd data gan y gwasanaeth Hawliadau Anafiadau Swyddogol, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a MedCo. Yn ogystal â hynny, cyhoeddwyd Galwad am Dystiolaeth er mwyn ceisio barn rhanddeiliaid. Ei nod oedd archwilio'r ffordd y mae ffactorau economaidd, megis chwyddiant, wedi cael effaith ers i'r tariff gael ei gyflwyno ar adeg cychwyn Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 ar 31 Mai 2021, yn ogystal â ph'un a ddylid ystyried unrhyw ffactorau ehangach ai peidio.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth. Mae'r holl sylwadau a thystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth wedi cael eu hystyried a'u defnyddio i lywio a chynorthwyo gwaith yr Arglwydd Ganghellor.

Mae adroddiad yr Arglwydd Ganghellor yn rhoi rhagor o wybodaeth am y broses adolygu a gynhaliwyd ynghyd â manylion y penderfyniadau a wnaeth ynghylch y Rheoliadau. Mae'r

[1] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/29/section/3/enacted

[2] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/29/section/4/enacted

[3] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2021/642/contents/made

adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am y camau nesaf er mwyn cwblhau'r adolygiad a rhoi ei ganlyniadau ar waith.

# Cyflwyniad

1. Ar 6 Chwefror 2024, cyhoeddodd y llywodraeth Alwad am Dystiolaeth i ategu elfennau tariff atchwip yr adolygiad statudol o'r Rheoliadau. Gofynnodd yr Alwad am Dystiolaeth am safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch y tariff atchwip a'i elfennau, ffactorau economaidd ehangach megis chwyddiant, a newidiadau sectoraidd a newidiadau eraill sy'n codi yn y sector hawliadau ers i'r tariff gael ei gyflwyno ar 31 Mai 2021.

2. Nid yw'r adolygiad o'r Rheoliadau yn asesu i ba raddau y mae mesurau'r rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip wedi cyflawni eu hamcanion polisi cyffredinol, sydd y tu allan i gwmpas rhwymedigaethau statudol yr Arglwydd Ganghellor i'w hadolygu.

3. Diben y ddogfen hon yw crynhoi'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth. Dylid nodi bod y sectorau a restrir wrth ymyl pob pwynt yn dangos bod un ymatebydd neu fwy o'r sector hwnnw wedi gwneud y sylw hwnnw, ac nid yw'n golygu bod holl gynrychiolwyr y sector hwnnw'n rhannu'r un safbwyntiau.

4. Mae'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd wedi cael ei hystyried a'i defnyddio i lywio a chynorthwyo adroddiad yr Arglwydd Ganghellor a gaiff ei osod yn y Senedd ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau. Felly, gellir cyfeirio at y dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth hon yn yr adroddiad sydd wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Senedd ac sydd hefyd ar gael ar Gov.UK yma:

   https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq

5. Er bod llawer o randdeiliaid wedi defnyddio'r Alwad am Dystiolaeth hon i wneud sylwadau ar amcanion polisi ehangach y llywodraeth ar gyfer y rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip, mae asesu'r diwygiadau y tu allan i gwmpas yr adolygiad o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu darllen, a chânt eu defnyddio i lywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol. Caiff adolygiad ôl-weithredu o'r rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip ei gwblhau maes o law, ar ôl i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau ac ar ôl i'w ganlyniadau gael eu rhoi ar waith.

6. Mae copïau o'r ddogfen hon yn cael eu hanfon i'r sefydliadau a restrir yn ar dudalen 32 er gwybodaeth a dylid nodi na fwriedir i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig. Gellir gwneud cais am gopïau o fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen hon drwy e-bostio **whiplash-reform-team@justice.gov.uk** neu ar-lein drwy ddilyn y ddolen ym mharagraff 4 uchod.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**
**21 Tachwedd 2024**

# Dadansoddiad Ystadegol o'r Ymatebion

7. Cyhoeddwyd Galwad am Dystiolaeth ynghylch gweithrediad y Tariff Atchwip ar 6 Chwefror 2024 a barodd am wyth wythnos, cyn dod i ben am hanner nos ar 2 Ebrill 2024. Roedd yr Alwad am Dystiolaeth wedi'i hanelu at bobl â diddordeb mewn hawliadau anafiadau personol sy'n gysylltiedig ag atchwip yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, croesawyd safbwyntiau rhanddeiliaid eraill.

8. Cafwyd cyfanswm o **32** o ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys 15 o ymatebion a ddaeth i law drwy holiadur ar-lein a 17 ymateb arall a ddaeth i law drwy e-bost i flwch derbyn **whiplash-reform-team@justice.gov.uk**.

9. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid ateb rhai neu bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn uniongyrchol, ond dewisodd un ymatebydd roi safbwyntiau cyffredinol drwy un ymateb/llythyr. Hefyd, ni wnaeth yr holl randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth i ategu eu hymatebion a/neu eu safbwyntiau.

10. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad esboniadol o'r ymatebion a gafwyd yn ôl sector:

| Sector | Ymatebion a gafwyd | % o gyfanswm yr ymatebion a gafwyd[4] |
|---|---|---|
| Bargyfreithiwr | 1 | 3% |
| Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr | 7 | 22% |
| Corff Cynrychiadol Hawlwyr | 2 | 6% |
| Corff Cynrychiadol Traws-sector | 3 | 9% |
| Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion | 3 | 9% |
| Corff Cynrychiadol Diffynyddion | 2 | 6% |
| Yswiriwr | 9 | 28% |
| Meddygol | 3 | 9% |
| Arall | 2 | 6% |
| **Cyfanswm** | **32** | **100%** |

11. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb a chyflwyno tystiolaeth neu rannu eu harbenigedd, eu profiad a'u dealltwriaeth mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth hon. Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law wedi cael eu dadansoddi a chânt eu crynhoi yn yr ymateb hwn.

[4] Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

# Strwythur y tariff

12. Ystyriwyd sawl ffactor wrth bennu'r tariff yn 2021, gan gynnwys lefelau cyfartalog y taliadau digolledu am anafiadau atchwip a oedd yn cael eu talu ar y pryd a'r amcanion cyffredinol i reoli costau a chynnig budd i ddefnyddwyr drwy bremiymau is. Casglwyd data, tystiolaeth ac adborth ar setliadau gwirioneddol gan y diwydiant yswiriant a chyfreithwyr hawlwyr.

13. Pan gawsant eu pennu, roedd symiau'r tariff hefyd yn adlewyrchu chwyddiant rhagamcanol dros y cyfnod tair blynedd canlynol (h.y. 2021-2024) a'r 15fed argraffiad, sef y mwyaf diweddar (ar y pryd), o ganllawiau'r Coleg Barnwrol ar asesu iawndal cyffredinol mewn hawliadau anafiadau personol.

14. Ceisiwyd barn yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd cyn i'r ffigurau gael eu pennu'n derfynol, yn unol â'r gofynion statudol y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2018.

15. Roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn cynnwys y tabl sy'n nodi strwythur presennol y tariff a'r taliadau digolledu wedi'u rhannu yn ôl hyd yr anaf, ac yn ôl y math o anaf, fel y nodir yn y Rheoliadau. Roedd hefyd yn esbonio cyd-destun y ffordd y cafodd y ffigurau hyn eu pennu'n wreiddiol.

16. Gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr er mwyn casglu tystiolaeth ynglŷn â'r gwahanol rannau o strwythur y tariff, gan gynnwys y symiau, sut y caiff y ffigurau hyn eu rhannu yn ôl hyd yr anaf, a'r gwahaniaeth rhwng anaf atchwip yn unig ac anaf atchwip gyda mân anaf seicolegol.

17. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth o ba mor hawdd ei ddefnyddio yw'r tariff, a hynny i ddefnyddwyr proffesiynol a hawlwyr heb gynrychiolaeth. Mae'n bwysig bod y tariff yn hawdd ei ddeall i bawb y bydd angen iddynt gyfeirio ato er mwyn pennu gwerth hawliad neu ymateb i gynnig.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau 1 i 5

**Cwestiwn 1: I ba raddau y mae'r ystodau hyd anaf yn Nhabl 1 yn adlewyrchu hyd arferol anafiadau atchwip?**

**Rhowch resymau a data, lle bo modd, i ategu eich barn.**

18. Gwnaeth cyfanswm o **31** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

19. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o bob rhan o'r sector yn teimlo bod yr ystodau'n adlewyrchu hyd arferol anafiadau atchwip (Bargyfreithiwr, Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion ac Yswiriwr, Meddygol, Arall). Rhoddwyd y rhesymau canlynol:

- Hyd at naw mis yw hyd y rhan fwyaf o brognosisau atchwip (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae'r amrywiaeth barn o ran prognosis wedi diflannu i raddau helaeth, gyda'r rhan fwyaf o arbenigwyr yn rhoi prognosis o chwe mis i bob hawlydd (Meddygol).

- Daw'r rhan fwyaf o hawliadau atchwip o fewn yr ystodau hyd (Yswiriwr).

- Bydd canran fach o anafiadau'n para'n hwy na'r band hyd uchaf (Meddygol).

20. Hefyd, gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer newid y bandiau, gan gynnwys:

- Bydd problemau'n codi o bryd i'w gilydd pan fydd y cyfnod prognosis yn gorgyffwrdd â bandiau gwahanol, sy'n gallu arwain at anghytuno ac oedi cyn setlo. Dyma ddau ateb posibl:

  (i) rhannu'r tariff fesul mis yn hytrach na chyfnodau o dri mis; neu

  (ii) sicrhau bod adroddiadau meddygol yn nodi pa fand sy'n berthnasol.

  (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Yswiriwr).

- Ar y cyfan, mae'r tariff yn defnyddio bandiau tri mis, ond dylai'r band olaf sy'n chwe mis o hyd (18-24 mis) gael ei rannu'n ddau hefyd. Nid oes rheswm meddygol dros ddangos anafiadau mewn cyfnodau o chwe mis (Yswiriwr).

- Dylid ailddiffinio achosion i adlewyrchu Pennod 14 o ganllawiau'r Coleg Barnwrol sy'n cynnwys categorïau ar gyfer gwella'n llwyr o fewn saith diwrnod, 28 diwrnod a thri mis. Fel arall, dylid cael categorïau ehangach (0-3, 3-6, 6-12, 12-18 a 18-24 mis) sef yr ystodau a ddefnyddir amlaf mewn adroddiadau (Corff Cynrychiadol Traws-Sector).

- Gellid ymgorffori difrifoldeb anaf yn strwythur y tariff drwy ychwanegu categorïau ar gyfer mân anaf, anaf cymedrol ac anaf difrifol (Arall).

21. Ymhlith y sylwadau eraill roedd:

- Mae'r rhan fwyaf o achosion o fewn yr ystodau hyd, ond ni ddylai'r tariff fod yn seiliedig ar hyd yn unig. Nid yw'r dull "un ateb sy'n addas i bawb" yn adlewyrchu'r effaith ar fywyd yr hawlydd yn gywir (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae pob achos yn wahanol, ac mae’n amhosibl gwybod am ba hyd y bydd anafiadau’n para pan ofynnir am gyngor am y tro cyntaf (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

22. Roedd rhai ymatebion yn cynnwys sylwadau pellach ar y polisi diwygiadau atchwip cyffredinol a bodolaeth y tariff (Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Arall).

**Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, a yw rhannu’r tariff yn “atchwip yn unig” ac “atchwip a mân anafiadau seicolegol” yn ddull addas?**

**Rhowch resymau i ategu eich barn ac awgrymwch ddull arall os yw hynny’n briodol.**

23. Gwnaeth cyfanswm o **31** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

24. Mae’r rhestr ganlynol yn grynodeb o’r pwyntiau a wnaed <u>o blaid</u>:

- Dywedodd sawl ymatebydd fod “atchwip a mân anafiadau seicolegol” yn cael eu cyflwyno yn y rhan fwyaf o hawliadau, a bod cyfran uwch o hawliadau o’r fath na hawliadau “atchwip yn unig”. Gwnaeth rhai ddefnyddio data mewnol i ategu’r pwyntiau hyn (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr, Meddygol).

- Mae cadw’r rhaniad yn sicrhau bod y tariff yn digolledu hawlwyr yn ddigonol gan sicrhau ar yr un pryd nad yw’r rhai sy’n dioddef atchwip yn unig yn cael eu digolledu'n ormodol am anafiadau nad ydynt yn bresennol (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae’n briodol cydnabod nad yw anafiadau seicolegol yn sgil damwain yn anghyffredin (Corff Cynrychiadol Hawlwyr) a’u bod yn anafiadau ar wahân (Meddygol).

- Mae’r dull hwn yn cydnabod y poen, dioddefaint a cholli amwynder ychwanegol a achosir, gan gydnabod ar yr un pryd fod y lefel hon o ‘bryder teithio’ yn gyffredin ac yn fân ac y dylid ei thrin yn eilradd i’r prif anaf atchwip (Yswiriwr, Bargyfreithiwr).

- Y broses hon yw’r ffordd fwyaf cyfleus ac effeithlon o setlo hawliadau sydd ag elfen seicolegol heb anhawster fel arfer (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Ni ellir gweld yr un ffordd arall o sicrhau y caiff anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwip eu digolledu’n briodol (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Ydy, ond byddai diffiniad o fân anaf seicolegol yn ddefnyddiol oherwydd, heb hynny, gall fod problemau wrth benderfynu beth sydd o fewn cwmpas y tariff a beth sydd y tu allan iddo (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Cytuno ond dylid monitro hawliadau sydd ag elfen seicolegol er mwyn sicrhau nad yw'r amlder yn cynyddu ymhellach (Yswiriwr).

- Ydy, ond bydd hawlwyr yn aml yn cael ail adroddiad pan fydd rhai arbenigwyr yn dweud na allant ddelio ag anafiadau seicolegol (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Byddai'n well i anafiadau seicolegol gael eu dadansoddi yn ôl hyd (Arall).

25. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed <u>yn erbyn</u>:

- Mae'r diffiniad yn amwys ac yn aneglur o ran yr hyn sydd o fewn y cwmpas, a dylid darparu diffiniad a chanllawiau priodol (Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Arall).

- Nid yw meddygon teulu na ffisiotherapyddion yn gyfforddus yn gwneud diagnosis o anaf seicolegol gan ddefnyddio'r diffiniad felly byddant yn aml yn atgyfeirio hawlwyr i gael ail adroddiad meddygol a all ychwanegu amser a chostau pellach, yn enwedig pan fydd anghytundeb (Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

26. Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylai'r tariff ddigolledu am anafiadau seicolegol am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'n digolledu'n ddigonol amdanynt. Mae'r rhain yn anafiadau cymhleth sy'n gallu bod yn wanychol ac yn hirhoedlog, gan arwain at effeithiau ehangach ar y gallu i weithio, bywyd teuluol ac ati (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Meddygol).

- Maent yn anafiadau ar wahân, felly dylid eu gwahanu neu eu hepgor o'r tariff yn gyfan gwbl (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Arall).

- Dylid creu tariff ar wahân sydd â dyfarniadau uwch ar gyfer anaf seicolegol yn unig (Arall).

- Dylid defnyddio canllawiau'r Coleg Barnwrol (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

27. Gwnaeth nifer bach o ymatebwyr gais ychwanegol am gynyddu'r £750 o gostau sefydlog adenilladwy sydd ar gael ar gyfer tystiolaeth arbenigol ychwanegol yn achosion y trac hawliadau bychain (a ddefnyddir yn aml er mwyn cael adroddiadau seicolegol ychwanegol) oherwydd gellir mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr). Mae'r pwynt hwn wedi cael ei nodi ond mae y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn o'r Rheoliadau.

**Cwestiwn 3: Pa mor hawdd ei ddeall, ei ddefnyddio a'i esbonio yw'r tariff?**

28. Gwnaeth cyfanswm o **31** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **3** chorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **2** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

29. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed <u>o blaid</u>:

- Mae'n hunanesboniadol ac ni allai fod yn symlach (Bargyfreithiwr).
- Hawdd ei ddeall, ei ddefnyddio a'i esbonio (Yswiriwr, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).
- Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno mai dim ond hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio ydyw, ac nid hawdd ei esbonio (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Meddygol).
- Dim ond i ddefnyddwyr proffesiynol y mae'n hawdd ei ddefnyddio a'i ddeall (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector).
- Mae'n iawn ar y cyfan, ond gall achosi dryswch pan fydd arbenigwr meddygol yn rhoi prognosis ar gyfer gwella ar ffurf ystod sy'n perthyn i gategorïau gwahanol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai canllawiau'r tariff yn cynnwys eglurhad pellach i gadarnhau sut y dylid mynd ati i roi prognosis mewn ffordd sy'n lleihau achosion o wrthdaro rhwng partïon ac yn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r diwydiant (Yswiriwr).
- Mae system sefydlog a thryloyw'r tariff yn helpu i reoli hawliadau atchwip yn effeithiol ac yn gyflym. Yr adborth a gafwyd gan gwsmeriaid a broceriaid yw bod y broses yn hawdd ei deall (Yswiriwr).

30. Dywedodd rhai fod y tariff yn hawdd ei ddeall i hawlwyr heb gynrychiolaeth, gan roi'r rhesymau canlynol:

- Mae'n galluogi'r hawlydd i nodi'r swm perthnasol o fewn y tariff gan ddefnyddio'r cyfnod prognosis o'r adroddiad meddygol (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).
- Mae hawlwyr heb gynrychiolaeth yn setlo'n gynt ac ar lefel uwch sy'n dangos ei fod yn hawdd ei ddefnyddio, ei ddeall a'i esbonio (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).
- Bydd rhai hawlwyr yn herio'r gwerth i ddechrau ond, pan gânt eu cyfeirio at y tabl, gallant ei ddefnyddio. Pan fyddant yn deall nad tariff a bennwyd gan y digolledwr ydyw, mae'n hawdd iddynt ei ddeall (Yswiriwr).

31. Mae’r rhestr ganlynol yn grynodeb o’r pwyntiau a wnaed yn erbyn:

- Mae’n anodd ei ddefnyddio a'i esbonio am ei bod yn amhosibl cynghori hawlwyr p’un a yw’n werth mynd ar drywydd hawliad ai peidio (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).
- Nid yw’n hawdd esbonio lefel y tariff i hawlwyr am ei bod yn aml yn anodd iddynt ddeall pam mae’r swm mor isel (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector).
- Mae’r diffiniad ar gyfer atchwip yn rhy amwys ac mae amwysedd ynghylch ble mae’r ffin o ran rhai anafiadau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r prif anaf atchwip (Yswiriwr)
- Nid yw cyfreithwyr a barnwyr yn ei ddeall felly ni fydd hawlwyr heb gynrychiolaeth yn ei ddeall chwaith (Meddygol).
- Nid yw’n hawdd ei ddefnyddio a’i ddeall i hawlwyr heb gynrychiolaeth, ac mae’r data ar gyfran yr hawlwyr heb gynrychiolaeth sy’n defnyddio OIC yn profi hyn (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

32. Cafwyd sylwadau pellach gan gynnwys beirniadaeth o’r rhaglen ddiwygio a bodolaeth y tariff yn fwy cyffredinol. Gwnaed rhai o’r rhain heb gyfeirio at ba mor hawdd ei ddefnyddio ydyw, tra oedd eraill yn cynnwys atebion yn dweud bod y tariff yn hawdd ei ddefnyddio a’i esbonio.

33. Gwnaeth nifer bach o ymatebion sylwadau ar broses OIC, sydd y tu allan i gwmpas y cwestiwn hwn a’r adolygiad yn ehangach (Arall).

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 4:** | **Os oes gennych brofiad o ymgysylltu â hawlwyr heb gynrychiolaeth, boed drwy gynghori, rhoi cymorth neu ymateb i hawliadau, beth yw eu profiad nhw o ddefnyddio’r tariff?** |

34. Gwnaeth cyfanswm o **25** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **4** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **1** corff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **2** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

35. Mae’r rhestr ganlynol yn grynodeb o’r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i’r cwestiwn hwn:

- Yn anecdotaidd, ni roddwyd gwybod am wahaniaeth rhwng hawlwyr â chynrychiolaeth a hawlwyr heb gynrychiolaeth. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y data ar werth setlo cyfartalog ac amser setlo cyfartalog hawlwyr â chynrychiolaeth a hawlwyr heb gynrychiolaeth drwy OIC (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Mae hawlwyr heb gynrychiolaeth yn setlo'n gyflymach (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Yn anecdotaidd, y brif broblem sydd wedi wynebu yswirwyr yw rheoli disgwyliadau hawlwyr heb gynrychiolaeth o ran lefelau'r taliad digolledu y byddant yn ei gael o gymharu â chyn y diwygiadau. Ar ôl iddo gael ei esbonio, byddant yn ei dderbyn ac yn gallu ei ddefnyddio'n ddidrafferth (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr)

- Pan ddaw'r adroddiad meddygol i law, bydd fel arfer yn hawdd cysylltu'r cyfnod prognosis â bandiau'r tariff ac mae'n hawdd esbonio'r swm digolledu (Yswiriwr, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

36. Ni wnaeth rhai ymatebwyr ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Er enghraifft:

- Dywedodd rhai nad oedd ganddynt brofiad o ymwneud â hawlwyr heb gynrychiolaeth ond wedyn gwnaethant sylwadau ychwanegol ynglŷn â phroses OIC yn gyffredinol ar gyfer defnyddwyr proffesiynol (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr)

- Dywedodd eraill, heb roi tystiolaeth, fod hawlwyr heb gynrychiolaeth dan anfantais oherwydd anawsterau wrth ddefnyddio'r porth heb gyfreithiwr (Meddygol, Arall).

- Gwnaeth eraill sylwadau ar lefel y tariff, a phrofiad cyffredinol hawlwyr heb gynrychiolaeth wrth gyflwyno hawliadau, ond nid ynglŷn â'r ffordd y maent yn defnyddio'r tariff (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

37. Gwnaeth nifer bach o ymatebwyr awgrymiadau pellach ar gyfer gwella proses OIC, fel yr angen am ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion) a mwy o arweiniad ar-lein i helpu'r rhai sy'n dechrau ar y broses hawlio heb ddarllen y canllawiau (Corff Cynrychiadol Diffynyddion). Mae'r rhain wedi cael eu nodi, ond maent y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

| **Cwestiwn 5:** | **Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau eraill ar strwythur neu elfennau'r tariff sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn?** |
|---|---|

38. Gwnaeth cyfanswm o **26** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **3** chwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **1** corff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

39. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Mae'r tariff wedi esgor ar amrywiaeth o 'anafiadau' ychwanegol ffug nad oes modd eu cadarnhau, fel honiadau o fyddardod a thinitws a oedd yn anhysbys am fwy na 30 mlynedd cyn y tariff (Bargyfreithiwr).

- Nid yw'n glir sut y byddai hawlydd heb gynrychiolaeth yn delio â'r cwestiwn ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â chynnydd 'eithriadol' ac unrhyw her a godir gan ddigolledwr gan nad oes diffiniad clir (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Yswiriwr).

- Mae ymarferwyr ac arbenigwyr meddygol hefyd yn ei chael hi'n anodd (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

- Mae cynnydd wedi cael ei ychwanegu'n amlach nag a ddisgwylid yn wreiddiol ac ni ddylai'r Rheoliadau diwygiedig ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd i'r tariff ar gyfer amgylchiadau eithriadol (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Ceir nifer cynyddol o setliadau o fewn y tariff yn y categorïau 9-12 mis a 12-15 mis (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Dylid ehangu'r tariff i gynnwys mân anafiadau eraill (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Dylid ymestyn y tariff i gynnwys 'poen rheiddiol' sydd, yn ôl y rhan fwyaf o arbenigwyr meddygol, yn un o symptomau anaf atchwip yn hytrach nag anaf ar wahân (Yswiriwr).

- Mae angen mwy o eglurder a manylion mewn adroddiad meddygol i ganfod achosiaeth ac effaith anafiadau nad ydynt o fewn cwmpas y tariff ar amwynder. Mae'n bwysig cael gwybodaeth ynghylch p'un a yw anafiadau ategol yn gysylltiedig â'r anaf atchwip neu'n anafiadau ar wahân (Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Byddai eglurhad ynghylch y diffiniad o anaf atchwip yn ddefnyddiol (Meddygol).

- Gallai effaith y diweddariad i ganllawiau'r Coleg Barnwrol ynghyd â chynnydd i'r tariff olygu y dylid cynyddu terfyn y Trac Hawliadau Bychain (Yswiriwr).

- Dylai'r tariff gynnwys bandiau difrifoldeb a dylai mân anafiadau seicolegol gael eu hasesu ar wahân mewn tariff arall sy'n cynnwys symiau uwch (Arall).

- Dylid rhannu elfen seicolegol y tariff yn gyfnodau gwella gyda chynnydd ychwanegol sy'n cynrychioli'r cyfnodau hynny ac unrhyw symptomau yn y gwddf neu'r cefn (Arall).

40. Cyflwynodd gweddill yr ymatebion ddadleuon yn erbyn bodolaeth y tariff a'r amcanion polisi sy'n sail iddo, gan gynnwys rhai sylwadau yn dweud nad yw'n digolledu hawlwyr

yn ddigonol. Mae’r rhain wedi cael eu nodi, ond maent y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

# Newidiadau ers i'r tariff gael ei gyflwyno

41. Roedd yr adran hon yn ceisio deall beth sydd wedi newid yn y sector hawliadau anafiadau personol ers i'r tariff atchwip gael ei gyflwyno a allai fod yn berthnasol i'r adolygiad hwn. Er bod yr adolygiad wedi defnyddio data ar hawliadau a ddelir yn ganolog gan OIC a GLITEF, roedd gennym hefyd ddiddordeb arbennig mewn cael gwybodaeth gan ymatebwyr am eu profiadau unigol, wedi'i hategu gan ddata lle bynnag y bo modd.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau 6 i 9:

**Cwestiwn 6: Ers i'r tariff atchwip gael ei gyflwyno, pa newidiadau sydd wedi bod mewn perthynas â'r ffactorau canlynol a fyddai'n berthnasol i'r adolygiad hwn?**

**a) nifer y setliadau atchwip;**

**b) cyfansoddiad y farchnad hawliadau;**

**c) llwythi achosion;**

**d) unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â hawliadau atchwip.**

42. Gwnaeth cyfanswm o **31** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

43. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

*a) Nifer y setliadau atchwip*

- Mae nifer yr achosion a wrandewir yn y llys wedi lleihau'n syfrdanol (Bargyfreithiwr).
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod nifer y setliadau wedi lleihau am fod llai o hawliadau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Yswiriwr).
- Ar y llaw arall, dywedodd ymatebwyr eraill nad yw'r nifer wedi lleihau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr) neu fod nifer y setliadau'n cynyddu (Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).
- Mae diffyg eglurder cyffredinol wedi bod ynglŷn â phennu gwerth anafiadau cymysg, ac mae'n annarbodus ac yn gymhleth i hawlwyr wneud hawliadau heb gynrychiolaeth (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae nifer sylweddol o hawliadau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, a hynny am resymau fel aros am benderfyniad y Goruchaf Lys, aros tan ddiwedd y cyfnod prognosis, yr adolygiad o'r tariff a'r diweddariad i ganllawiau'r Coleg Barnwrol (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).
- Caiff setliadau eu gohirio am nad yw hawlwyr â chynrychiolaeth wedi datgelu adroddiadau meddygol (Yswiriwr).
- Mae'r ffaith bod cynifer o honiadau heb eu setlo yn awgrymu bod y system yn gymhleth neu'n ddiffygiol (Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector).
- Hawliadau OIC yw'r rhan fwyaf o setliadau ac mae nifer y setliadau ar Claims Portal wedi lleihau (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).
- Mae niferoedd yr hawliadau OIC a CPL wedi'u cyfuno yn llai na chyn y diwygiadau, ond mae'n anos mesur y lleihad hwn oherwydd pandemig COVID-19 a'r newidiadau canlyniadol mewn patrymau gweithio a chymudo (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

*b) Cyfansoddiad y farchnad hawliadau*

- Mae nifer y cwmnïau anafiadau personol yn y sector wedi lleihau (Bargyfreithiwr, Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).
- Cwmnïau'n uno yn y farchnad hawliadau a chwmnïau cyfreithwyr yn cau (Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr, Meddygol, Arall).
- Erbyn hyn, mae'n annarbodus cynnal achosion isel eu gwerth sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).
- Nifer llai o gwmnïau mawr sydd bellach yn cynrychioli'r rhan fwyaf o hawlwyr â chynrychiolaeth. Mae cwmnïau llai wedi uno neu wedi cael eu prynu gan gwmnïau eraill (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).
- Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi effeithio ar y farchnad (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).
- Ceir llai o gwmnïau rheoli hawliadau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswirwyr, Arall).
- Mae cynnydd wedi bod o ran nifer yr hawlwyr a gaiff eu cefnogi gan gwmnïau cyfreithwyr, yswiriant costau cyfreithiol, a chwmnïau a gefnogir gan strwythurau busnes amgen (Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae’r farchnad hawliadau yn gystadleuol o hyd. Bydd cwmnïau cyfreithwyr hawlwyr fel arfer yn gweithredu mewn sympiau ar ran yswirwyr costau cyfreithiol (Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Crëwyd OIC ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, nid gweithwyr proffesiynol, gan greu prinder systemau digonol a pheri i gwmnïau ymadael â’r farchnad (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae’r farchnad hawliadau yn dal yn llawn hawlwyr â chynrychiolaeth gyfreithiol er gwaethaf y bwriad y dylai OIC gael ei wasanaethu gan hawlwyr drostynt eu hunain (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

*c) Llwythi achosion*

- Mae llwythi achosion wedi cynyddu ac mae'n cymryd mwy o amser i setlo achosion. Ymhlith y rhesymau a roddwyd roedd:

  - Diffyg eglurder ynghylch pennu gwerth anafiadau cymysg (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

  - Problemau technegol OIC (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

  - Hawliadau a oedd yn aros am benderfyniad y Goruchaf Lys ar anafiadau cymysg (Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

  - Ymddygiad yswirwyr: cynigion isel a chymryd llawer o amser i ymateb (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

  - Hawliadau segur: hawliadau hŷn nad ydynt yn symud yn eu blaenau ac sy’n dal i ymddangos fel rhai gweithredol (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

  - Mae llai o archwiliadau meddygol yn cael eu cyflwyno oherwydd y newidiadau i’r Rheolau/Protocol Cyn Achos. Gall fod yn aneglur pa achosion sy’n symud yn eu blaenau (Yswiriwr).

- Mae hawliadau heb gynrychiolaeth yn cael eu setlo’n llawer cynt na hawliadau â chynrychiolaeth (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Mae llwythi achosion wedi lleihau i ddim, bron, am na all hawlwyr dalu am gyngor cyfreithiol eu hunain (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Maent naill ai wedi lleihau neu wedi aros yr un fath (Corff Cynrychiadol Traws-Sector).

*d) Unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy’n gysylltiedig â hawliadau atchwip*

- Mae nifer yr hawliadau sydd y tu allan i gwmpas y tariff wedi cynyddu ers y diwygiadau (Bargyfreithiwr, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Mae nifer y teithiau busnes a gofnodir wedi lleihau ers 2019 (Corff Cynrychiadol Diffynyddion).
- Mae nifer yr hawliadau anafiadau cymysg wedi cynyddu'n raddol ac yn barhaus (Yswiriwr).
- Canlyniadau dyfarniad y Goruchaf Lys, y cynnydd yng nghanllawiau'r Coleg Barnwrol, a'r risg y bydd bwriad polisi'r diwygiadau'n cael ei ddadwneud os caiff y tariff ei gynyddu heb i derfyn y Trac Hawliadau Bychain gael ei gynyddu (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).
- Mae yswirwyr trydydd parti yn ei chael yn anodd iawn deall mecanweithiau anafiadau a gwneud cynigion rhesymol ar gyfer anafiadau sydd y tu allan i gwmpas y tariff. Mae hyn yn arwain at drafodaethau helaeth a chyfathrebu amrywiol ag arbenigwyr meddygol er mwyn esbonio mecanwaith anafiadau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

44. Roedd rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys gwrthwynebiadau i'r polisi ehangach yn hytrach na newidiadau ers i'r polisi hwn gael ei roi ar waith. Roedd eraill yn cynnwys sylwadau am ymddygiad y partïon a phroblemau ag OIC. Mae'r pwyntiau hyn wedi cael eu nodi, ond maent y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

## Anafiadau cymysg

45. O dan Ddeddf 2018, gall llysoedd barhau i ddyfarnu iawndal sy'n adlewyrchu effaith gyfunol anafiadau lle y ceir cymysgedd o anafiadau atchwip (tariff) ac anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwip a gafwyd ar yr un pryd. Roedd gennym ddiddordeb mewn deall sut mae'r tariff atchwip wedi effeithio ar hawliadau am anafiadau cymysg.

46. Rydym yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd y caiff gwerth hawliadau cymysg ei bennu, gan gynnwys dyfarniad y Goruchaf Lys ar bennu gwerth anafiadau cymysg a draddodwyd ar 26 Mawrth 2024, a'r diweddariad diweddar i ganllawiau'r Coleg Barnwrol. Mae'r naill a'r llall o'r rhain wedi digwydd ers i'r Alwad am Dystiolaeth gael ei chyhoeddi.

**Cwestiwn 7: Sut mae cyflwyno'r tariff atchwip wedi newid y broses o bennu gwerth anafiadau er mwyn gwneud cynigion/gwrthgynigion?**

47. Gwnaeth cyfanswm o **28** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion,**1** corff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **1** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

48. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Mae’r broses yn llawer symlach erbyn hyn, ond nid yw rhai cyfreithwyr cyfarwyddo yn ei deall yn iawn o hyd. Mae un neu ddau o achosion wedi bod lle maent wedi tybio bod anafiadau’n werth mwy na ffigurau’r tariff (Bargyfreithiwr).

- Nid yw hawlwyr heb gynrychiolaeth yn gwybod gwerth eu hawliadau felly byddant naill ai’n derbyn y gwerth a bennwyd gan yr yswiriwr neu'n cyflwyno’r achos yn y llys fel ymgyfreithiwr drostynt eu hunain (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae’r broses ar gyfer gwneud cynigion a gwrthgynigion yn syml. Daw'r broses o bennu gwerth o fewn y diffiniad statudol a’r amserlen ar gyfer gwella sy’n pennu’r swm (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr, Arall).

- Mae’r posibilrwydd o gyd-drafod wedi cael ei ddileu’n llwyr ac eithrio ar gyfer swm unrhyw gynnydd, ac ar yr amod bod yr adroddiad meddygol yn darparu ar gyfer prognosis atchwip a nodir mewn misoedd calendr (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae wedi newid cwantwm ond nid o reidrwydd y broses o gytuno ar setliad (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae wedi ei gwneud yn anos cyd-drafod a chyfnewid gwybodaeth (Corff Cynrychiadol Traws-Sector).

- Weithiau, bydd anghydfod ynghylch barn neu brognosis arbenigwr meddygol, ond prin yw’r hawliadau hyn (Yswiriwr).

- Gall cynigion gan ddigolledwyr fod yn isel ac yn anghyson â’r dystiolaeth a gyflwynwyd. Y dewis a roddir i’r hawlydd yw derbyn cynnig isel neu fynd i’r llys (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Nid oes ffordd i hawlwyr ddadlau yn erbyn cynigion annheg (Meddygol).

49. Cyfeiriodd sawl ymatebydd at bennu gwerth anafiadau cymysg. Dylid nodi bod rhai ymatebion wedi cael eu cyflwyno cyn i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Hassam vs Rabot gael ei draddodi a bod rhai wedi dod ar ôl hynny.

- Mae’r broses o bennu gwerth hawliadau sy'n cynnwys un neu fwy o anafiadau ychwanegol wedi cael ei gwneud yn fwy cymhleth (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector).

- Dylai fod yn symlach nawr gan ein bod wedi cael eglurder gan y Goruchaf Lys ynghylch anafiadau cymysg (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae’r broses o bennu gwerth wedi cael ei hamlinellu gan y Goruchaf Lys. Erbyn hyn, mae angen i arbenigwyr meddygol fod yn fwy manwl gywir er mwyn pennu gwerth hawliadau cymysg yn gywir (Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Oherwydd y lleihad yn nifer yr hawliadau a thaliadau o fewn y tariff, mae hawlwyr yn hawlio mwy am eu hanafiadau eraill erbyn hyn, a hynny'n briodol, sy'n golygu bod nifer yr hawliadau am anafiadau sydd y tu allan i gwmpas y tariff wedi cynyddu (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).
- Gwnaeth yswirwyr barhau i wneud cynigion isel wrth aros am y dyfarniad (Arall).
- Mae yswirwyr yn parhau i wneud cynigion isel hyd yn oed ar ôl y dyfarniad (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

50. Awgrymodd un ymatebydd y dylid newid y Protocol Cyn Achos er mwyn caniatáu i hawlwyr wneud y cynnig cyntaf mewn hawliadau â chynrychiolaeth, gan ddweud y byddai hyn yn cyflymu'r broses ac yn lleihau'r angen i ymgyfreitha. Mae'r pwynt hwn wedi cael ei nodi ond mae y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn am ei fod yn ymwneud â'r broses hawlio ehangach.

**Cwestiwn 8: Sut mae cyflwyno'r tariff atchwip wedi newid y broses o gytuno ar setliadau ar gyfer hawliadau anafiadau cymysg?**

51. Gwnaeth cyfanswm o **32** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **3** chorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

52. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Mae'r hawliadau hyn wedi dod yn fwy tebygol yn sgil cyflwyno'r tariff, sydd wedi arwain at fwy o anghydfodau ynghylch achosiaeth (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).
- Mae wedi ei gwneud yn anos pennu gwerth wrth geisio deall sut y digwyddodd yr anafiadau hyn neu sut y daethant i'r amlwg, tra nad oedd hyn yn cael ei weld cyn y diwygiadau (Yswiriwr).
- Mae wedi bod yn anos setlo hawliadau anafiadau cymysg, gan arwain at oedi cyn setlo (Bargyfreithiwr, Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr, Meddygol)
- Cafodd setliadau eu harafu am fod partïon yn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).
- Gallai hawlwyr â chynrychiolaeth a hawlwyr heb gynrychiolaeth barhau drwy'r broses a setlo wrth aros am eglurder gan y Goruchaf Lys (Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae digolledwyr yn teimlo y gallant wneud cynigion a bydd hawlwyr yn aml yn eu derbyn. Bydd yr anhawster yn codi pan na chaiff cynigion eu derbyn a bod yr achos wedyn yn mynd i’r llys (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae yswirwyr trydydd parti yn ei chael yn anodd deall mecanweithiau anafiadau a gwneud cynigion rhesymol ar gyfer anafiadau sydd y tu allan i gwmpas y tariff. Mae hyn yn arwain at drafodaethau helaeth a chyfathrebu amrywiol ag arbenigwyr meddygol er mwyn esbonio mecanwaith anafiadau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Erbyn hyn, mae’r Goruchaf Lys wedi rhoi eglurder a dylai’r rhan fwyaf o hawliadau anafiadau cymysg setlo (Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Yswiriwr).

- Bydd mwy nag a fwriadwyd o anghydfodau ynghylch pennu gwerth o hyd, a bydd yn cymryd ychydig o amser i ganlyniad y dyfarniad dreiddio drwodd i setliadau (Yswiriwr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

- Mae'r sefyllfa'n dal yn aneglur ar ôl i’r Goruchaf Lys draddodi ei ddyfarniad. Felly, mater i’r Senedd ei ddatrys yw mynd i’r afael ag anhawster anafiadau cymysg a'r ffaith bod manteision y diwygiadau'n cael eu herydu erbyn hyn (Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Mae wedi newid y ffordd y caiff arbenigwyr meddygol eu cyfarwyddo. Mae trinwyr hawliadau yn ceisio dweud wrth arbenigwyr sut i wneud diagnosis a chysylltu anafiadau, neu fod cyflwr a oedd yn bodoli eisoes yn gysylltiedig â’r anaf atchwip. Mae rhai arbenigwyr yn cynyddu prognosisau ac yn ychwanegu mwy o anafiadau pan ofynnir iddynt wneud hynny (Meddygol).

- Mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn golygu ei bod yn bwysicach bod arbenigwyr meddygol yn llunio adroddiadau o safon gydag eglurder ynghylch mecanwaith neu achosiaeth anafiadau (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

**Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, beth y dylid ei ystyried yn yr adolygiad o ran anafiadau cymysg?**

53. Gwnaeth cyfanswm o **31** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **3** chorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

54. Mae’r rhestr ganlynol yn grynodeb o’r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i’r cwestiwn hwn:

- Dylid pennu gwerth hawliadau am anafiadau cymysg yn unol â dyfarniad y Goruchaf Lys a’r prif ffactor y dylid ei ystyried yw hawl yr hawlydd i gael ei ddigolledu'n llawn (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

- Nid yw hawliadau anafiadau cymysg yn syml a bydd hawlwyr heb gynrychiolaeth yn ei chael yn anodd pennu eu gwerth (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae yswirwyr trydydd parti yn diystyru’r gyfraith achosion mewn perthynas ag anafiadau cymysg, ac mae hynny wedi arwain at gynigion isel gan olygu bod mwy o faterion yn mynd i’r llys (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae gormod o anafiadau sydd y tu allan i gwmpas y tariff yn cael eu cyflwyno, ac ni welwyd hyn cyn y diwygiadau. Ymateb y farchnad yw bod cyfreithwyr hawlwyr yn ceisio gwneud hawliadau mor fawr â phosibl. Bydd atchwip yn diflannu fel diagnosis mewn ychydig flynyddoedd, fwy na thebyg, er y bydd yn parhau fel anaf (Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Meddygol).

- Camsyniad yw’r gred bod anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwip yn cynyddu ers y diwygiadau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Ychydig o anafiadau cymysg gwirioneddol a geir mewn damweiniau nerthol. Caiff arbenigwyr eu gorfodi i roi diagnosis ar gyfer anafiadau nad ydynt yn bodoli (Meddygol).

- Mae’n debygol y bydd penderfyniad y Goruchaf Lys yn ysgogi cynnydd yn nifer yr hawliadau anafiadau cymysg, yn enwedig os na chaiff terfyn y Trac Hawliadau Bychain ei gynyddu (Yswiriwr).

- O ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys, ynghyd â’r cynnydd yng nghanllawiau'r Coleg Barnwrol, heb gynnydd yn nherfyn y Trac Hawliadau Bychain, ceir risg o ddadleoli hawliadau (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Dylid cael diwygiadau deddfwriaethol pellach er mwyn ymestyn y tariff i gynnwys anafiadau i feinweoedd meddal nad ydynt yn anafiadau atchwip (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Byddai ymestyn y tariff i gynnwys anafiadau i feinweoedd meddal nad ydynt yn anafiadau atchwip yn arwain at oblygiadau o ran mynediad at gyfiawnder a byddai’n amhriodol gan na ellid adlewyrchu effaith amrywiaeth eang o anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwip yn gywir drwy gyfeirio at hyd wedi’i rannu’n adrannau (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Arall).

- Mae angen mynd i’r afael â safon adroddiadau meddygol a’r cyfarwyddiadau a roddir i arbenigwyr meddygol (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Mae angen gwybodaeth fanwl am achosiaeth ac effaith anafiadau nad ydynt yn anafiadau atchwip ar amwynder. Hefyd, mwy am hygrededd y ddamwain a achosodd yr anafiadau a ddisgrifir (Yswiriwr).

- Dylai’r adolygiad ystyried effaith yr angen i wneud unrhyw newidiadau i dystiolaeth feddygol a’r costau sy'n gysylltiedig â hyn (Meddygol).

55. Roedd gweddill yr ymatebion yn cynnwys sylwadau ar fodolaeth y tariff a’r amcanion polisi sy’n sail iddo, gan gynnwys awgrymiadau nad yw’n digolledu hawlwyr yn ddigonol. Cafwyd sylwadau yn dweud bod system OIC yn rhy gymhleth hefyd. Mae’r safbwyntiau hyn wedi cael eu nodi, ond maent y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

# Ffactorau ehangach

56. Roedd yr adran hon yn ceisio casglu tystiolaeth o ddylanwad ffactorau ehangach ers i'r tariff gael ei gyflwyno. Y nod oedd deall eu heffaith ac ystyried sut y gellid cyfrif amdanynt yng nghyd-destun adolygu'r tariff.

## Chwyddiant

57. Gwnaeth y Llywodraeth ymrwymo i adolygu'r tariff bob tair blynedd a chreu "byffer" tair blynedd yn y ffigurau er mwyn sicrhau bod y cyfraddau'n ystyried pwysau chwyddiant rhagamcanol yn y dyfodol.

58. Cafodd symiau'r tariff atchwip eu pennu gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel mesur chwyddiant cyffredinol, yn unol â chyngor gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r Llywodraeth. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddir mewn meysydd eraill, er enghraifft budd-daliadau, pensiynau'r wladwriaeth ac ardrethi busnes, y caiff pob un ohonynt eu pennu drwy gyfeirio at CPI.

59. Roedd y cwestiynau yn yr adran hon yn ceisio deall effaith wirioneddol chwyddiant ers i'r tariff gael ei gyflwyno ar 31 Mai 2021. Roeddem hefyd yn awyddus i gael tystiolaeth o unrhyw ffactorau economaidd eraill a oedd yn berthnasol i'r adolygiad ym marn y rhanddeiliaid, megis diweithdra a chyfraddau llog a chyfnewid.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau 10 i 13:

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 10:** | **Pa effaith y mae chwyddiant wedi'i chael ar iawndal hawlwyr ers 31 Mai 2021?** |

60. Gwnaeth cyfanswm o **30** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **6** chwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

61. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr fod lefelau chwyddiant diweddar wedi lleihau'r iawndal a delir i hawlwyr mewn termau real (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Yswiriwr, Meddygol, Arall).

- Byddai chwyddiant wedi effeithio ar iawndal nad yw'n gyffredinol yn unol ag enillion a cholledion eraill, ac ni fyddai chwyddiant wedi effeithio ar iawndal cyffredinol (Yswiriwr).

- Mae ffigurau canllawiau'r Coleg Barnwrol wedi cynyddu 22% (Bargyfreithiwr, Yswiriwr).

- Er bod chwyddiant wedi effeithio ar iawndal, mae angen ystyried unrhyw gynnydd yn y tariff yn erbyn nodau'r diwygiadau (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr)

- Mae'n bosibl y bydd cynnydd yn y tariff yn golygu bod angen cynyddu'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain er mwyn sicrhau bod achosion yn aros ar y trywydd cywir (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Mae chwyddiant wedi arwain at chwyddiant hawliadau, gyda hawlwyr yn fwy tebygol o ofyn am gynnydd (Yswiriwr).

**Cwestiwn 11: A yw CPI yn dal yn fesur chwyddiant priodol?**

**Os nad yw, pam ddim?**

62. Gwnaeth cyfanswm o **32** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **3** chorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

63. **Atebodd 22 'ydy'** (1 Bargyfreithiwr, 4 Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, 3 Chorff Cynrychiadol Traws-Sector, 3 Chwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, 2 Gorff Cynrychiadol Diffynyddion, 9 Yswiriwr) ac **atebodd 10 'nac ydy'** (3 Chwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, 2 Gorff Cynrychiadol Hawlwyr, 3 Meddygol, 2 Arall).

64. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

    - Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno mai CPI yw'r mesur chwyddiant priodol o hyd (Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr). Ymhlith y rhesymau roedd:

        - Mae ei ddefnyddio yn galluogi cyllidwyr, cyfreithwyr ac eraill i gynllunio a buddsoddi'n briodol yn yr offer TG, swyddogaethau busnes a staff angenrheidiol (Corff Cynrychiadol Traws-Sector).

        - Caiff CPI ei dderbyn a'i ddefnyddio'n eang. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi gwrthwynebu defnyddio RPI ers tro am fod tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn debygol o orddatgan chwyddiant. Gwnaeth CPI ddisodli RPI o 2011

ymlaen fel y mesur chwyddiant a ffefrir gan Lywodraeth y DU (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

  - Mae cwmpas eang CPI yn golygu ei fod yn addas ar gyfer atchwip am ei fod yn ystyried newidiadau i brisiau amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys eitemau hanfodol sy'n berthnasol i benderfynu ar bŵer prynu unigolion (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

  - Caiff CPI ei ddiweddaru a'i ddiwygio'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau ym mhatrymau gwario defnyddwyr. (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

  - Gellid defnyddio CPIH yn lle RPI, ond nid dyma'r dull a ffefrir gan SYG ar gyfer mesur chwyddiant defnyddwyr (Yswiriwr).

- Roedd rhai'n cytuno mai CPI yw'r mwyaf priodol ond gan ychwanegu cafeat at hyn drwy ddweud bod cynnydd ar sail chwyddiant yn amhriodol ar hyn o bryd (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Dywedodd un ymatebydd nad oes ots pa fynegai a ddefnyddir, dim ond ei fod yn parhau i gael ei ddefnyddio ar ôl cael ei ddewis (Bargyfreithiwr).

- Byddai unrhyw gynnydd arfaethedig i derfyn y Trac Hawliadau Bychain oherwydd cynnydd i RPI (neu CPI) yn anghymesur oherwydd y gyfran fach o hawliadau a fyddai uwchlaw'r terfyn (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Roedd yn well gan wyth ymatebydd RPI a gwnaethant roi'r rhesymau canlynol:

  - Dylai gyd-fynd â chanllawiau'r Coleg Barnwrol er mwyn sicrhau cysondeb (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Arall).

  - Gan fod canllawiau'r Coleg Barnwrol wedi cael eu cyhoeddi cyn yr adolygiad o'r tariff, dylid defnyddio'r swm RPI uwch ar gyfer y tariff (Arall).

  - Mae RPI yn ystyried taliadau morgais ac yn ffactoreiddio cyfraddau llog. Nid yw anwybyddu cyfraddau llog yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r effaith ar y rhan fwyaf o bobl (Arall).

  - Mae CPI bob amser yn is nag RPI, felly dylid defnyddio'r ail (Meddygol).

- Roedd yn well gan bedwar ymatebydd CPIH am y rhesymau canlynol:

  - Mae'n cynrychioli'n well y costau sy'n wynebu hawlwyr.

  - Mae'n rhoi adlewyrchiad mwy cywir o effaith chwyddiant ar iawndal hawlwyr a anafwyd (Meddygol).

  - Mae CPIH yn ystyried costau tai perchen-feddianwyr a'r dreth gyngor (Meddygol).

**Cwestiwn 12: A yw'r byffer chwyddiant tair blynedd sydd wedi'i gynnwys yn y tariff atchwip yn effeithiol?**

**Os nad yw'n effeithiol, pa opsiwn arall y byddech yn ei gynnig a pham?**

65. Gwnaeth cyfanswm o **32** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **7** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **3** chorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

66. **Atebodd 3 'ydy'** (1 Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, 2 Yswiriwr) ac **atebodd 29 'nac ydy'** (1 Bargyfreithiwr, 6 Chwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, 2 Gorff Cynrychiadol Hawlwyr, 3 Chorff Cynrychiadol Traws-Sector, 3 Chwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, 2 Gorff Cynrychiadol Diffynyddion, 7 Yswiriwr, 3 Meddygol, 2 Arall);

67. Cafwyd sylwadau gan lawer o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno bod y byffer chwyddiant tair blynedd yn effeithiol. Roedd eu rhesymau dros ei wrthwynebu yn amrywio:

- Byddai'n well gan rai pe bai'r tariff yn cael ei gynyddu'n flynyddol i adlewyrchu chwyddiant yn hytrach na'i fod yn cynnwys byffer ac yn cael ei adolygu bob tair blynedd (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Meddygol, Arall).

- Nid oedd eraill am weld cynnydd ar sail chwyddiant o gwbl ac felly nid oeddent am weld byffer newydd (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

68. Roedd y sylwadau a gafwyd ar y byffer tair blynedd yn dweud y canlynol:

- Dim ond os bydd yn cefnogi'r nodau polisi cyffredinol y dylid cynyddu'r tariff a chael byffer (Yswiriwr).

- Mae'n effeithiol, ond ni ddylid ychwanegu cynnydd ar sail chwyddiant os bydd y Llywodraeth o'r farn bod nifer yr anafiadau atchwip, a'u costau cysylltiedig, yn rhy uchel o hyd (Yswiriwr).

- Dylid ystyried byffer dwy flynedd (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Dylid cael cynnydd blynyddol ynghyd ag adolygiad manwl bob tair blynedd (Arall).

- Dim ond os bydd chwyddiant yn sefydlog ac yn rhagweladwy y bydd y byffer yn gweithio (Bargyfreithiwr).

- Dylai unrhyw gynnydd ar sail chwyddiant gael ei ychwanegu'n ôl-weithredol, gan gynnwys yr holl hawliadau presennol (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

- Os bydd angen cynyddu’r tariff, mae’r byffer yn briodol am ei fod yn golygu y gall tariff cyson fodoli ar gyfer cyfnodau priodol o amser, heb fod angen ei adolygu’n fwy rheolaidd (Yswiriwr).

**Cwestiwn 13: A oes unrhyw ffactorau economaidd eraill a ddylai lywio’r adolygiad?**

69. Gwnaeth cyfanswm o **27** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **1** bargyfreithiwr, **4** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol ac **1** arall.

70. Mae’r rhestr ganlynol yn grynodeb o’r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i’r cwestiwn hwn:

- Mae costau yswiriant wedi codi ers i’r tariff gael ei gyflwyno ac nid yw’r arbedion yn sgil cyflwyno’r tariff wedi cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws Sector, Meddygol, Arall).

- Gallai’r cynnydd mewn enillion cyfartalog fod yn ddull da o bennu iawndal ar y sail na ddylai’r bobl a anafwyd fod yn well nac yn waeth eu byd na’u cymheiriaid sy’n gweithio, gan dybio bod yr anafiadau’n ddigon i gyfyngu ar eu cyflogaeth neu ddod â’u cyflogaeth i ben (Bargyfreithiwr).

- Mae’r diwydiant yswiriant wedi wynebu mathau eraill o bwysau chwyddiant, fel cynnydd mewn costau atgyweirio, rhannau a llogi ceir. Byddai costau yswiriant wedi cynyddu mwy heb i’r tariff atchwip leihau costau taliadau digolledu (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr).

- Ni ddylai iawndal cyffredinol gynyddu gyda chwyddiant (Yswiriwr).

- Bydd cynyddu’r tariff yn arwain at gynnydd mewn costau yswiriant (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Yn ystod argyfwng costau byw, mae'n bosibl y bydd hawlwyr yn fodlon derbyn cynnig isel yn gynnar ac yn wynebu risg o gael eu digolledu'n annigonol o ganlyniad i hynny (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

## Ffactorau ychwanegol

71. Wrth edrych ar yr hyn sydd wedi newid ers 2021, roedd gennym ddiddordeb mewn casglu tystiolaeth o unrhyw ffactorau ychwanegol eraill sy'n berthnasol yng nghyd-destun yr adolygiad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried datblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol neu ddatblygiadau eraill ers i'r cyfraddau tariff sy'n berthnasol i'r adolygiad gael eu cyflwyno.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau 14 i 15:

**Cwestiwn 14: Pa ffactorau eraill sy'n berthnasol yng nghyd-destun adolygiad o'r tariff?**

**Rhowch resymau wedi'u hategu gan ddata lle bo modd.**

72. Gwnaeth cyfanswm o **27** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **5** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **1** corff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **9** yswiriwr, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

73. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Mae nifer yr hawliadau a'r taliadau digolledu wedi lleihau gan arwain at arbedion enfawr i yswirwyr, ond mae premiymau'n dal i godi (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Traws-Sector, Arall).

- Mae'r lleihad yn nifer yr hawliadau yn awgrymu bod dioddefwyr damweiniau'n cael eu hanghymell rhag hawlio (Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Meddygol).

- Dylai'r tariff gael ei gynyddu uwchlaw chwyddiant er mwyn ystyried cymhlethdod llawer o hawliadau OIC (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Gallai cynyddu'r tariff wrthdroi'r lleihad yn nifer yr hawliadau, gan arwain at fwy o gostau a chael effaith negyddol ar arbedion i ddefnyddwyr (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Os caiff y tariff ei gynyddu gan ddefnyddio chwyddiant, bydd yn rhaid cynyddu terfyn y Trac Hawliadau Bychain. Dylid adolygu hyn ar yr un pryd â'r tariff ac yna ei adolygu o bryd i'w gilydd yn unol â chwyddiant CPI a'i gynyddu mewn cynyddrannau penodedig (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Dylid cyflwyno tariff mân anafiadau er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder i bartïon ynglŷn â lefel y taliadau digolledu a wneir ar gyfer mân anafiadau i feinweoedd meddal (y tu hwnt i'r diffiniad o atchwip). Fel arall, dylid ehangu cwmpas y diffiniad presennol o atchwip (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Mae canllawiau’r Coleg Barnwrol yn defnyddio RPI, sy’n groes i safbwynt y Llywodraeth ar y mynegeion chwyddiant priodol. Yn y tymor hir, bydd hyn yn golygu bod angen ymyriad gan y Llywodraeth (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

74. Er bod cwestiwn 14 yn gofyn am wybodaeth i gefnogi’r adolygiad statudol, cafwyd hefyd sylwadau helaeth a oedd yn canolbwyntio ar bryderon ynglŷn â gweithrediad gwasanaeth OIC. Mae’r pwyntiau hyn wedi cael eu nodi, ond maent y tu allan i gwmpas yr ymarfer hwn.

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ystyriaethau eraill nad ydynt wedi cael eu trafod eisoes y dylid eu hystyried fel rhan o’r adolygiad?**

75. Gwnaeth cyfanswm o **20** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **4** cwmni cyfreithwyr hawlwyr, **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **1** corff cynrychiadol traws-sector, **3** chwmni cyfreithwyr diffynyddion, **2** gorff cynrychiadol diffynyddion, **5** yswiriwr, **1** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

76. Mae’r rhestr ganlynol yn grynodeb o’r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i’r cwestiwn hwn:

- Nid yw hawliadau’n llai cymhleth ond ceir diffyg eglurder ynglŷn â’r rheolau a rhoi gwerth ar anafiadau cymysg. Dylai’r tariff gael ei gynyddu uwchlaw chwyddiant er mwyn unioni rhywfaint o’r anghydbwysedd (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Er gwaethaf lleihad yn nifer yr hawliadau, mae premiymau yswiriant cerbyd modur wedi cynyddu (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

- Ni ddylid cynyddu’r tariff. Os caiff symiau’r tariff eu cynyddu, dylai unrhyw gynnydd fod yn fach iawn ac ni ddylai fod yn ôl-weithredol. Dim ond i ddamweiniau ar neu ar ôl i’r cynnydd gael ei roi ar waith y dylai unrhyw gynnydd fod yn berthnasol, oherwydd anawsterau ymarferol mewn perthynas â hawliadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Corff Cynrychiadol Diffynyddion, Yswiriwr).

- Am fod cynifer o hawliadau am anafiadau sydd y tu allan i gwmpas y tariff, mae’n bosibl y byddai’n briodol i’r Llywodraeth ailystyried y diffiniad o atchwip (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion).

- Mae'n debygol y bydd y cynnydd yng nghanllawiau’r Coleg Barnwrol yn gwthio hawliadau anafiadau cymysg y tu hwnt i derfyn y Trac Hawliadau Bychain (Corff Cynrychiadol Diffynyddion).

- Rydym yn gwrthwynebu unrhyw gynnydd i derfyn y Trac Hawliadau Bychain (Corff Cynrychiadol Hawlwyr).

- Mae’n fwy tebygol y bydd adroddiadau meddygol gwael yn arwain at iawndal gormodol neu annigonol (Meddygol).

- Os bydd yn amlwg nad yw yswirwyr yn trosglwyddo arbedion premiymau i gwsmeriaid, dylid tynnu’r tariff yn ôl yn ei gyfanrwydd (Arall).

77. Cafwyd ymatebion ychwanegol a oedd y tu allan i gwmpas y cwestiwn/adolygiad megis materion gweithredol yn ymwneud ag OIC ac ymwybyddiaeth o’r gwasanaeth. Gwnaed sylwadau ynglŷn ag ymddygiad partïon mewn achosion ymgyfreitha hefyd.

78. Gofynnodd un ymatebydd am i’r diwygiadau gael eu hadolygu yn eu cyfanrwydd, gan ystyried mynediad at gyfiawnder a thegwch, yn benodol: y gostyngiad mewn taliadau digolledu, prinder hawlwyr heb gynrychiolaeth, ymddygiad gwael gan yswiriwr, diffyg sancsiynau am ymddygiad, arbedion ddim yn cael eu trosglwyddo (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

79. Mae’r pwyntiau hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn ond maent yn berthnasol i’r adolygiad ôl-weithredu o’r rhaglen ddiwygio ar gyfer anafiadau atchwip. Caiff yr ymarfer ar wahân hwn ei gwblhau ar ôl i’r adolygiad presennol o’r Rheoliadau gael ei gwblhau ac ar ôl i’w ganlyniadau gael eu rhoi ar waith.

# Ystyriaethau cydraddoldeb

80. Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath);
- meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath).

81. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i Weinidogion a'r Adran roi "sylw dyledus" i'r naw "nodwedd warchodedig" a nodir yn y Ddeddf, sef: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth. Felly, roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag adolygu'r tariff atchwip ac yn gofyn am safbwyntiau ymatebwyr ar y mater hwn.

## Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiwn 16:

**Cwestiwn 16: Rhowch dystiolaeth o'r ffordd y gall yr adolygiad o'r tariff atchwip effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.**

82. Gwnaeth cyfanswm o **23** o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Cafwyd ymatebion gan **2** gorff cynrychiadol hawlwyr, **6** chwmni cyfreithwyr hawlwyr, **6** yswiriwr, **2** gorff cynrychiadol traws-sector, **1** corff cynrychiadol diffynyddion,**1** cwmni cyfreithwyr diffynyddion, **3** sefydliad/gweithiwr proffesiynol yn y sector meddygol a **2** arall.

83. Mae'r rhestr ganlynol yn grynodeb o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Nid ydym yn credu y bydd unrhyw effaith (Cwmni Cyfreithwyr Diffynyddion, Yswiriwr, Meddygol).
- Mae mynediad at "gyfiawnder" i bawb. Mae'r holl nodweddion gwarchodedig yn amherthnasol i'r broses hawlio, ac felly y dylai pethau fod (yswiriwr).
- Mae hawlwyr heb nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ac ar incwm uwch sy'n golygu y bydd colli enillion yn cynyddu eu hawliadau gan eu

gwneud yn llai tebygol o fod o fewn terfyn y Trac Hawliadau Bychain (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae gan hawlwyr â nodweddion gwarchodedig fwy o angen am gynrychiolaeth gyfreithiol ond bydd cynyddu terfyn y Trac Hawliadau Bychain yn eu hamddifadu o gyngor cyfreithiol yn anghymesur (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- O blith y rhai heb gymorth cyfreithiol, gall partïon gwarchodedig a'r rhai ag anableddau fod dan anfantais os bydd eu nodweddion yn achosi anhawster wrth ddefnyddio gwasanaeth OIC ar eu pen eu hunain a delio â chymhlethdodau'r tariff (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr).

- Mae'r tariff yn cael effaith anghymesur ar hawlwyr ar incwm is. Mae'r tariff yn rhy isel ac yn golygu bod pobl yn cael eu digolledu'n annigonol, sy'n fwy difrifol i hawlwyr agored i niwed sydd â nodweddion gwarchodedig (Cwmni Cyfreithwyr Hawlwyr, Corff Cynrychiadol Hawlwyr, Arall).

- Bydd tynnu cynrychiolaeth gyfreithiol oddi ar ddioddefwyr, i bob pwrpas, a'i chadw ar gyfer diffynyddion yn gwaethygu'r annhegwch sy'n wynebu'r rhai sy'n ei chael yn anos ymdopi (Corff Cynrychiadol Traws-Sector).

84. Gwnaeth sawl ymatebydd o bob sector ateb y cwestiwn hwn drwy gyfeirio at broses OIC yn hytrach na'r adolygiad o'r tariff ei hun. Roedd yr atebion hyn yn gymysgedd o adborth cadarnhaol a negyddol ar y broses, ond mae'r rhain y tu allan i gwmpas y cwestiwn hwn a'r adolygiad o'r Rheoliadau.

# Crynodeb a’r Camau Nesaf

85. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bwrw golwg dros y dystiolaeth a gasglwyd o’r Alwad am Dystiolaeth hon ac mae’r ddogfen ymateb hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o’r dystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid. Mae’r holl dystiolaeth a gyflwynwyd wedi cael ei hystyried a’i defnyddio i lywio a chynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor yn y broses o ystyried canlyniad yr adolygiad. Mae’n ofynnol i’r Arglwydd Ganghellor osod adroddiad yn y Senedd sydd wedi cael ei gyhoeddi ar wahân yma:

    https://www.gov.uk/government/publications/whiplash-reform-programme-information-and-faq

**Y WEINYDDIAETH GYFIAWNDER**

**21 Tachwedd 2024**

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

# Rhestr o Ymatebwyr

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Yswirwyr Prydain | First Central Insurance Management Limited |
| Cymdeithas y Sefydliadau Cymorth i Ddefnyddwyr | Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant |
| Allianz | Forbes LLP |
| Anexo PLC | Keoghs |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol | Knightsbridge Solicitors |
| Aviva | LV= |
| Bott & Co | MASS |
| Carpenters | MIB |
| CILEX | Mobile Doctors Limited |
| DAC Beachcroft | NFU Mutual |
| Direct Line Group | Premier Medical Group Limited |
| Doncaster and District Law Society | Lyons Davidson Solicitors |
| DSM Legal Limited | Thompsons |
| DWF Law LLP | Unsain |
| eSure | Wards Solicitors LLP |

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.